Beibl i Blant

yn cyflwyno

Daniel y carcharor



Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Jonathan Hay
addaswyd gan: Mary-Anne S.
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2018 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd Daniel a tri ffrind iddo yn byw yn Israel. Un diwrnod daeth brenin pwerus yno a chipio pob dyn ifanc galluog a'u cymryd i'w wlad ei hun. Roedd gan y brenin enw hir iawn, iawn – Nebwchadnesar, ac roedd e'n byw mewn gwlad bell o'r enw Babilon.

Cafodd y dynion ifanc eu trin yn dda yn Babilon. Roedd y brenin wedi dewis y dynion mwyaf galluog a'r gorau o bob gwlad yn y byd. Roedd am ddysgu iaith Babilon iddyn nhw er mwyn iddyn nhw fod yn weision iddo a'i helpu i redeg ei deyrnas.



Roedd y bwyd yn dda hefyd- roedden nhw'n cael bwyta bwyd y brenin. Ond doedd Daniel a'i ffrindiau ddim am fwyta'r bwyd hwn am ei fod wedi ei offrymu i dduwiau ffug. Roedd Daniel wedi addo na fyddai'n gwneud unrhyw yn erbyn dymuniadau Duw. Roedd Duw Israel wedi gorchymyn nad oedd ei bobl i wneud unrhyw beth gyda duwiau ffug neu ddelwau.



Gofynnodd Daniel i'r swyddog oedd yn ei hyfforddi am ganiatâd i beidio bwyta bwyd y brenin. Petai'r brenin yn cael gwybod, byddai'n flin iawn. Ond roedd Duw wedi gwneud i'r swyddog hoffi Daniel.



Cytunodd i roi prawf ar Daniel a'i ffrindiau - "Gad i ni fwyta dim ond llysiau, ac yfed dim ond dŵr am ddeg diwrnod." Ar ddiwedd y deg diwrnod roedd Daniel a'i ffrindiau yn edrych yn iachach na'r bechgyn eraill i gyd, er bod y rheiny wedi bod yn bwyta bwydydd y brenin. Felly dyma nhw'n dal ati gyda'r llysiau a'r dŵr.



Roedd y dynion ifanc yma yn parchu Duw. Rhoddodd Duw wybodaeth a gallu anarferol iddyn nhw ddysgu, ac roedd gan Daniel y ddawn i ddehongli gweledigaethau a breuddwydion.



Ar ddiwedd tair blynedd o ddysgu yn Babilon, dyma nhw'n cael eu cyflwyno i'r brenin Nebwchadnesar. Penderfynodd nad oedd neb ohonyn nhw cystal â Daniel a'i dri ffrind. A dweud y gwir, fe wnaeth y Brenin ddarganfod bod gan Daniel fwy o ddoethineb na phob swynwr doeth drwy'r ymerodraeth.

Un noson, cafodd y brenin freuddwyd gas. Galwodd ar ei swynwyr, ei seryddion a'i ddewiniaid i ddod ato. Dywedodd y brenin, "Rydw i wedi cael breuddwyd, ac rydw i am gael gwybod beth ydy ystyr y freuddwyd." Atebodd y dynion doeth, "O frenin! Boed i chi fyw am byth! Dwedwch beth oedd y freuddwyd, a gwnawn ni ddweud beth mae'n ei olygu."

"Na," meddai'r brenin, "Rhaid i chi ddweud beth oedd y freuddwyd a beth mae'n ei olygu, neu bydd eich cyrff chi'n cael eu rhwygo'n ddarnau a'ch cartrefi'n cael eu llosgi! Ond os gallwch chi ddweud beth oedd y freuddwyd, a beth mae'n olygu, byddai'n pentyrru anrhegion, gwobrau ac anrhydeddau arnoch chi." Wrth gwrs, doedd neb yn gallu dweud beth oedd y freuddwyd.

Dywedodd y dynion doeth wrth y brenin,
"Does neb ar wyneb daear allai wneud beth
rydych chi'n ei ofyn. Dim ond y duwiau sy'n gwybod
yr ateb." Gwylltiodd y brenin, a rhoddodd orchymyn
i ladd dynion doeth
Babilon i gyd.



Pan ddaeth y milwyr i nôl Daniel, gofynnodd i Arioch, capten y brenin, "Pam mae'r brenin am ladd y dynion doeth?" Dywedodd Arioch beth oedd wedi digwydd. Aeth Daniel at y brenin a gofynnodd iddo roi ychydig o amser iddo, a byddai'n esbonio ystyr y freuddwyd.



Yna aeth Daniel adre, a dweud wrth ei ffrindiau Shadrach, Meshach ac Abednego am y peth. Doedd Daniel ddim yn gwybod beth oedd y freuddwyd, na beth oedd yr ystyr, ond roedd yn adnabod Rhywun sy'n gwybod popeth. Pwy ydy'r Rhywun yna? Duw! Felly dechreuodd Daniel a'i ffrindiau weddio.



Cafodd Daniel ateb gan Dduw am y freuddwyd. Dechreuodd foli Duw'r nefoedd, gan ddweud, "Boed i enw Duw gael ei foli am byth. Mae e'n Dduw doeth a chryf." Brysiodd Daniel at y brenin a dweud wrtho, "Mae Duw yn y nefoedd yn gallu dangos ystyr pob dirgelwch." Disgrifiodd freuddwyd y brenin, ac egluro'r ystyr.

Pan glywodd y Brenin Nebwchadnesar hyn, plygodd o flaen Daniel a dweud, "Does dim amheuaeth fod dy Dduw di yn Dduw ar y duwiau i gyd, ac yn feistr ar bob brenin. Mae e'n gallu datguddio pob dirgelwch!" Dyma'r brenin yn rhoi un o swyddi uchaf y deyrnas i Daniel, a rhoi llwyth o anrhegion iddo. Gwnaeth Daniel yn llywodraethwr talaith Babilon gyfan, ac yn bennaeth dynion doeth Babilon i gyd.





Daniel y carcharor

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Daniel 1 - 2

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16